# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd
yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 16 Ionawr 2025 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Anwen Jones

**Cynghorydd Sir**
Cyng. Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cyng. Huw Jones. Nid oedd y Cadeirydd, Cyng Lowri Jones yn gallu cadeirio'r cyfarfod oherwydd problemau technegol.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. David Roberts a Dafydd Owen.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2024.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

**3.1 Seddi Gwag -** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag eto, dim ymateb hyd yn hyn. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi creu taflen ar gyfer eu dosbarthu i'r gymuned ym Mynydd Llandygai a Sling – ar y gweill.

**3.2 Biniau Baw Ci** – Derbyniwyd ymateb ar y cais am finiau:
Pont Penrala - Gan fod y palmant yn gul yma buasai bin yn gallu achosi rhwystr a pherygl i gerddwyr. Cadarnhwyd bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac ail ymweld os ydi problemau yn parhau.
Sling - bydd y Tîm Tacluso yn gosod bin amlbwrpas yma.
Llwybr Main a Lon y Grug – fydd Tîm Tacluso yn adleoli'r bin sydd ar Lôn Hermon (ar bostyn trydan) a'i symud at bostyn arwydd ar gyffordd Lôn Hermon a Llwybr Main.

**3.3 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Adroddwyd y Clerc fod y llinellau melyn dwbl wedi cael ei osod, ond nid y 'road studs' coch. Y Clerc wedi cysylltu gyda Ian Morgan, dim ymateb hyd yn hyn.

**3.4 Llecyn Tir Bont Twr** - Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran Lleiniau Tir yng Nghyngor Gwynedd, a'u bod wedi trosglwyddo'r mater i'r adran gyfreithiol – dal dim ymateb – ar y gweill. Cytunwyd bydd y Cyng. Beca Roberts yn holi pennaeth yr adran am y mater.

**3.5 Pont y Pandy –** Derbyniwyd ymateb am y cais am archwiliad diogelwch ar y safle: *Gan fod y rhain yn llwybrau troed hanesyddol a bod coridor yr A5 yn gul yn y lleoliad hwn, mae'n bosibl na fyddai'n ymarferol gwneud unrhyw welliannau. Mae nifer o lwybrau troed yn cysylltu â'r Rhwydwaith Cefnffyrdd, ac nid yw'n bosibl darparu ar eu cyfer ym mhob achos. Fodd bynnag, fe fyddwn yn trefnu bod asesiad yn cael ei gynnal i benderfynu a oes unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella diogelwch cerddwyr yn y lleoliad hwn. Gan fod yr holl gyllid wedi ei ymrwymo ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, fe fyddwn yn gwneud pob ymdrech i gynnal yr asesiad hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Sylwch os gwelwch yn dda y bydd hyn yn ddibynnol ar gyllid a gwahanol flaenoriaethau,*

**3.6 Polisi Iaith y Cyngor –** Cadarnhawyd y Cyng. Iwan Hywel fod y ddogfen drafft wedi ei gwblhau. Y Clerc i gylchredeg y ddogfen i bawb ac i gynnwys yr eitem ar yr agenda ym mis Chwefror.

**3.7 Murlun Canolfan Tregarth** – Nodwyd fod y gwaith wedi cychwyn – ar y gweill.

**3.8 Biniau halen -** angen adnewyddu'r bin halen yng ngwaelod Ffordd Tanrhiw, dim un wedi bod yno ers blynyddoedd. Bin halen y Rocar wedi torri. Y Clerc i holi am fin halen i stad Cae'r Gors gan Adra. Y Cynghorwyr i wirio biniau yn ei hardal nhw, ac i adrodd i'r Clerc.

**3.9 Cais bin baw ci -** Penderfynwyd gwneud cais ychwanegol am fin baw ci ger mynediad Lôn Las ar Allt Cerrigllwydion.

**3.10 Wal ger Cae'r Gors –** Nodwyd fod y wal wedi ei adnewyddu. Y Clerc i ofyn am archwiliad diogelwch ar y ffordd yn dilyn y datblygiad newydd.

**3.11 Cais i estynu'r goleuadau stryd** - Y Clerc i holi os oes modd estynu'r goleuadau stryd o Arafon am Ffarm Bwlch.

## 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2025'

**4.1 Cynlluniau cae pel-droed Tregarth – Clwb Chwaraeon Tregarth –** Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r cynlluniau – y Clerc i ddanfon llythyr o cefnogaeth. Cytunwyd rhoi rhodd o £500.00 tuag at y prosiect.

**4.2 Gwaith coed Parc y Bwlch – Lon y Grug –** Derbyniwyd gohebiaeth gan breswylydd lleol yn amlygu'r difrod a achoswyd i'r ffordd o ganlyniad i'r loris mawr. Nodwyd hefyd fod y loris dal i deithio drwy Sling – y Clerc i adrodd am hyn i Kath McNulty ac i Cyngor Gwynedd. Nodwyd hefyd fod llwybr 24 ddim yn gallu cael ei ddefnyddio oherwydd y gwaith, y Clerc i hysbysu swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd.

## 5. Archeb 2025-26

Yn dilyn archwilio'r gyllideb a'r gwariant yn y flwyddyn bresennol, penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £38,900.

## 6. Rhoddion

Ni dderbyniwyd llawer o geisiadau, felly penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hon yn cyfarfod mis Chwefror.

**7. Gwaith y mis**

**7.1 Paentio llinellau ffyrdd–** Angen ailbaentio llinellau yn ardal Mynydd Llandygai, yn enwedig ar cyffordd Lon y Grug. Hefyd, angen ail baentio'r croesffordd Lon Las ger mynediad y Chwarel.

**7.2 Gor-dyfiant -** Tyfiant angen ei dorri rhwng fferm Bwlch ac Arafon, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**7.3 'Tre-garth' -** Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi dechrau defnyddio 'Tre-garth' yn lle Tregarth, y Cyng. Beca Roberts i edrych i mewn i'r mater.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**Grwp Cyswllt Chwarel y Penrhyn –** Nodwyd y Cyng. Dafydd Roberts ei fod wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf o'r grwp cyswllt ar ddiwedd mis Tachwedd. Nodwyd fod dim cwynion cynllunio nag chwynion amgylcheddol wedi'i dderbyn yn y chwech mis diwethaf.

**Canolfan Tregarth –** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng. Huw Jones am ddatbygiadau diweddar yn y Ganolfan.

**Partneriaeth Ogwen –** Cafwyd ddiweddariad ar brosiect yr Hen Bost.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. Adolygu'r gofrestr risg yn y cyfarfod nesaf.

**10. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu cyfarfod mis Medi | £90.00 |
| T Shaw | Glanhau o amgylch y Ganolfan | £100.00 |
| T Shaw | Ail toriad llwybrau | £3280.00 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

**C18/0767/16/LL**

Coed Wern, Glasinfryn
Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0004/16/LL**

Land at Maes Talog, Tregarth

| | |
|---|---|
| | Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau |
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0801/16/CC** | Pont Sarnau, Bethesda<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0847/16/DT** | 4, Fron Ogwen, Tregarth<br>Adeiladu ystafell ardd yng nghefn y tŷ yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin fach i'w defnyddio fel rhan atodol i'r tŷ annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0878/16/HY** | Uned 7, Parc Bryn Cegin, , Llandygai<br>Gosod arwyddion wedi'u goleuo a heb eu goleuo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0982/16/LL** | Tanysgafell Isaf Tanysgafell, Coed Y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/1103/16/DT** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu dormer cefn ynghyd a mynedfa newydd a newidiadau mewnol.<br>**Penderfyniad:** |
| **C24/0997/16/LL** | Hen Pandy Craig Y Pandy, Tregarth<br>Newid defnydd uned wyliau yn dŷ annedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad:** |

| | |
|---|---|
| **C24/1090/16/LL** | Penrala, Tregarth<br>Bwriad i godi adeilad swyddfa a storfa newydd ynghyd â mynediad newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith tirlunio meddal ar dir i'r gorllewin o Benrala, Tregarth<br>**Penderfyniad:** |
| **C24/1058/16/LL** | Parth 3 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Adeiladu 4rh. uned ddiwydiannol newydd a thirlunio allanol cysylltiedig ar Lain C3 ym Mharc Bryn Cegin, Llandygai, Bangor.<br>**Penderfyniad:** |
| **C24/1134/16/DT** | Tŷ Newydd Tal Gae, Tregarth,<br>Cais Cynllunio Ôl-weithredol ar gyfer dymchwel hen garej/gweithdy/sied a gosod un newydd yn ei le.<br>**Penderfyniad:** |
| **C24/1106/16/DT** | Y Stabl, Llandygai, Bangor<br>Estyniad Ystafell Haul Cefn Un Llawr Newydd<br>**Penderfyniad:** |
| **C24/0937/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda<br>Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** |

**13. Unrhyw fater brys arall**
**Rhwydwaith E-fws Zip World –** Yn dilyn gohebiaeth gan y Cyng. Beca Roberts, penderfynwyd fod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cynllun ac i ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i amlygu ein pryderon.

**14. Crynodeb Llais Ogwan**
Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Biniau baw ci a biniau halen
- Estyniad i oleuadau stryd ym Mynydd Llandygai
- Rhoddion